

## **Arolygiad o Ysbyty (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Unedau Geni Annibynnol Ysbytai

Cymunedol – Gwasanaethau

Mamolaeth, Bwrdd Iechyd Addysgu

Powys

Dyddiadau arolygu: 10 - 14 Chwefror  
2020

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiadau .....	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf? .....	27
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	29
	Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol .....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	35

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o unedau geni ysbytai cymunedol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys rhwng 10 a 14 Chwefror 2020. Mae'r arolygiadau hyn yn rhan o adolygiad cenedlaethol AGIC o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru<sup>1</sup>.

Ymwelwyd ag unedau geni annibynnol yr ysbytai canlynol yn ystod yr arolygiadau hyn:

- Ysbyty Coffa Rhyfel Llandrindod (Canolfan Eni Ithon), sydd â dwy ystafell eni gan gynnwys un pwl geni ac un ystafell glinigol.
- Ysbyty Aberhonddu (Canolfan Eni Aberhonddu), sydd ag un ystafell eni gan gynnwys un pwl geni ac un ystafell glinigol.
- Ysbyty Coffa y Trallwng (Canolfan Eni y Trallwng), sydd â thair ystafell eni.
- Ysbyty y Drenewydd (Canolfan Eni y Drenewydd), sydd ag un ystafell eni gan gynnwys un pwl geni ac un ystafell glinigol.
- Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes (Canolfan Eni Llanidloes), sydd â dwy ystafell eni gan gynnwys un pwl geni ac un ystafell glinigol.
- Ysbyty Trefyclo (Canolfan Eni Trefyclo), sydd ag un ystafell eni gan gynnwys un pwl geni ac un ystafell glinigol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC a dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac yn fydwragedd. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

---

<sup>1</sup> <https://agic.org.uk/adolygiad-cenedlaethol-o-wasanaethau-mamolaeth>

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiadau

Er i ni nodi rhai meysydd i'w gwella, yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol â pharch ac urddas i'r cleifion.

Roedd rhai trefniadau da ar waith i gefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol a gwaith tîm amlddisgyblaethol cadarnhaol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd menywod fod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr uned yn ardderchog
- Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- Arolygwyd bod proses ddiogel a chadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Roedd y ddogfennaeth o safon uchel
- Gwelwyd gwybodaeth hybu iechyd ardderchog ym mhob rhan o'r unedau
- Roedd y gofal a roddwyd o safon uchel gyda pharhad clir wrth gynllunio gofal
- Gwelwyd bod yr holl unedau'n lân, yn groesawgar ac yn addas i ddiwallu anghenion darpar famau a'u teuluoedd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dulliau gwagio'r pwll geni
- Prosesau adolygu ymarferion gwagio
- Prosesau adolygu amgylcheddau yn Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes ac Ysbyty Trefyclo.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Powys yn fwrdd iechyd gwledig sy'n darparu rhai gwasanaethau'n lleol drwy feddygon teulu, ysbytai cymunedol a gwasanaethau gofal sylfaenol cymunedol. Mae Powys yn darparu gwasanaethau i tua 133,000 o drigolion dros ardal ddaearyddol wledig fawr.

Nid oes gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ei Ysbyty Cyffredinol Dosbarth ei hun, ond mae'n talu am wasanaethau ysbyty arbenigol i drigolion Powys mewn ysbytai y tu allan i'r sir. Yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford y mae'r gyfran fwyaf o weithgarwch a gomisiynir ac yn Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy y mae'r gyfran fwyaf ond un. Yng Nghymru, mae'r bwrdd iechyd yn prynu gwasanaethau gan Fyrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Aneurin Bevan, Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg. Mae hyn yn cwmpasu pob arbenigedd, ond nid yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn brif gomisiynydd unrhyw ddarparwr aciwt.

Cynigir gwasanaethau mamolaeth i bob menyw a'i theulu sy'n byw o fewn ffin ddaearyddol y bwrdd iechyd. Mae'r gwasanaethau mamolaeth hefyd yn darparu gofal i fenywod sy'n dewis rhoi genedigaeth yng nghyfleusterau'r bwrdd iechyd sy'n byw y tu allan i'r ffin ddaearyddol.

Ceir dros 220 o enedigaethau yn y bwrdd iechyd bob blwyddyn, ac mae'r ffigur hwn wedi aros yn gymharol sefydlog dros y tair blynedd diwethaf.

Caiff menywod sy'n rhoi genedigaeth yn ardal y bwrdd iechyd ddewis o blith dau leoliad geni. Mae'r rhain yn cynnwys geni yn y cartref ac unedau geni annibynnol dan arweiniad bydwagedd ledled Powys.



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd y cleifion yn gadarnhaol ynghylch eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth a roddwyd iddynt. Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais, cyfeillgar a chefnogol rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn glir ym mhob rhan o'r unedau geni.

Fodd bynnag, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion a'u teuluoedd am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC), sy'n cynnig gwasanaeth eirioli a chymorth.

Yn ystod ein harolygiadau, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i ddefnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cael eu barn am safon y gofal a roddir. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â 12 o gleifion yn ystod yr arolygiadau.

Roedd sylwadau'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cynnwys y canlynol:

*“Roedd y staff mor gefnogol a gwych drwyddi draw, o'r bydwragedd i'r gweithiwr cymorth mamolaeth. Maen nhw i gyd yn wych ac yn mynd yr ail filltir i ddiwallu ein hanghenion.*

*“Mae'r uned hon a'r staff yn gwbl wych a byddwn yn ei hargymell i unrhyw un”.*

## Cadw'n iach

Ym mhob uned, gwelsom fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei harddangos i gleifion ar hysbysfyrdau, a bod taflenni ar gael yn hawdd i roi gwybodaeth i gleifion am sut i gadw'n ddiogel ac yn iach. Roedd gwybodaeth mewn perthynas

â chyngor ar fwydo ar y fron a chyswllt croen â chroen yn cael ei harddangos yn yr unedau, er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am fanteision bwydo ar y fron a chyswllt croen â chroen i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg am eu gofal. Roedd posteri hylendid dwylo a chanllawiau ar olchi dwylo hefyd yn cael eu harddangos.

Gwelsom wybodaeth am roi'r gorau i smygu yn yr unedau geni. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wrthi'n datblygu rolau arweinwyr rhoi'r gorau i smygu i roi cymorth a gwybodaeth i gleifion. Gwelsom hefyd fod taflenni ar fwyta'n iach a'r brechiadau a argymhellir yn ystod beichiogrwydd yn cael eu harddangos yn eang. Wrth edrych ar sampl o gofnodion gofal mamolaeth, gwelsom fod negeseuon iechyd cyhoeddus yn cael eu dogfennu'n glir, er enghraifft cyngor ar roi'r gorau i smygu.

## **Gofal ag urddas**

Yn ystod ein harolygiadau, gwelsom enghreifftiau o staff yn ymddwyn yn garedig ac yn dosturiol tuag at gleifion. Gwelsom staff yn trin cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Roedd y mwyafrif o'r sylwadau yn holiaduron y cleifion yn gadarnhaol iawn hefyd. Gwnaethom edrych ar ddogfennau gofal ac ni welsom unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder ynghylch gofal ag urddas.

Roedd cyfleusterau en-suite yn yr ystafelloedd geni ym mhob un o'r unedau, a oedd yn helpu i hybu cysur ac urddas y cleifion yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod yr unedau'n lân ac yn daclus. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*“Mae bob amser yn braf ac yn lân ac yn dawel yma yn yr uned”.*

Gwelsom fod y staff yn cynnal preifatrwydd y cleifion wrth rannu gwybodaeth. Gwnaethom sylwi ei bod yn arfer gyffredin i'r staff gau drysau ystafelloedd wrth ddarparu gofal a chymorth er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod wedi gweld yr un fydwraig yn yr uned eni ag a welsant yn ystod eu hapwyntiadau cynenedigol. Roedd y mwyafrif o'r cleifion wedi bod yn feichiog ers rhwng chwech a deuddeg wythnos pan gawsant eu hapwyntiad cyntaf, a dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael cynnig dewis ynghylch ble i gael eu babi.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod y fydwraig wedi gofyn iddynt sut roeddent yn teimlo ac yn ymdopi'n emosiynol yn ystod y cyfnod cynenedigol. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais iddyn nhw a'u teuluoedd a'u ffrindiau, ac yn cytuno bod y staff wedi gwrando arnynt drwy gydol eu gofal.

## Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod cyfarwyddiadau i'r unedau'n cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o safleoedd yr ysbytai y gwnaethom ymweld â nhw. O ganlyniad, roedd yn hawdd i bobl ddod o hyd i'r lle priodol i gael gofal.

Pan oedd angen mynediad y tu allan i oriau craidd, roedd arwyddion yn cael eu harddangos yn glir er mwyn cyfeirio pobl yn briodol i'r unedau geni. Gwelsom fod yr unedau'n ddiogel ac mai dim ond drwy gerdyn sweipio staff neu system botwm y gellir cael mynediad iddynt er mwyn cynnal diogelwch.

Roedd gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd hysbysfyrddau yn yr unedau yn tynnu sylw at feysydd megis Gweithio i Wella<sup>2</sup>, Gwasanaeth Myfyrio ar Enedigaethau a Thrawma Powys a gwasanaethau Cam-drin Domestig ar gyfer Powys.

Gwelsom fod hysbysfwrdd gwybodaeth am y staff ym mhob un o'r unedau a oedd yn ddefnyddiol i roi gwybod i'r cleifion a'u teuluoedd pwy roeddent yn debygol o'u gweld yn yr unedau.

Gwelsom hefyd fod gwybodaeth yn cael ei harddangos ym mhob un o'r unedau mewn perthynas â data ac ystadegau'r dangosfwrdd. Dywedwyd wrthym fod y data hyn hefyd yn cael eu rhannu'n rheolaidd â'r cyhoedd ar y dudalen Facebook agored, a oedd yn arfer da ym marn y tîm arolygu.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd defnyddwyr y gwasanaeth yn gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddynt a'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr unedau. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn i gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith.

---

<sup>2</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

Roedd llinell iaith ar gael ar gyfer y cleifion hynny nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a oedd yn golygu eu bod yn gallu derbyn gofal a fyddai'n briodol i'w hanghenion. Wrth edrych ar sampl o gofnodion gofal mamolaeth, gwelsom hefyd dystiolaeth wedi'i dogfennu i ddangos bod anghenion cyfathrebu, gan gynnwys yr angen am ddehonglwyr neu'r angen i sicrhau bod y wybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill, yn cael eu hasesu'n llawn yn ystod apwyntiadau cynenedigol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gallent gael gafael ar y rhain i gleifion a oedd yn ei chael hi'n anodd deall Saesneg.

### **Gofal amserol**

Er na welwyd unrhyw fenywod a oedd yn esgor yn yr unedau ar adeg yr arolygiadau, dywedodd y staff a'r cleifion a oedd wedi cael eu gwahodd i siarad â ni y byddai'r staff bob amser yn gwneud eu gorau i sicrhau bod cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd er mwyn diwallu eu hanghenion personol, maeth a chysur.

Dywedodd pob un o aelodau'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn yr unedau geni wrthym eu bod yn gallu darparu gofal o safon uchel yn ystod eu diwrnod gwaith.

### **Gofal unigol**

#### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwelsom fod y cyfleusterau'n hygyrch i bawb ym mhob rhan o'r unedau geni.

Gwelsom hefyd fod aelodau o'r teulu neu bartneriaid yn gallu rhoi cymorth i gleifion a bod yn rhan o'u gofal, yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd trefniadau ymweld agored ar gael, gan ganiatáu i'r partner, neu unigolyn dynodedig arall, ymweld yn rhydd.

Dywedwyd wrthym fod credoau personol a dewisiadau crefyddol cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cynenedigol, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu cynnal drwy gydol eu beichiogrwydd, wrth esgor ac wrth gael gofal ôl-enedigol.

Gwelwyd bod cynlluniau geni cleifion hefyd yn hyrwyddo annibyniaeth gan eu bod yn dangos bod dewisiadau o ran lleoliadau geni'n cael eu bodloni pan fo hynny'n glinigol bosibl.

## Hawliau pobl

Gan fod y rhain yn unedau annibynnol dan arweiniad bydwragedd<sup>3</sup>, roedd yr amseroedd ymweld yn hyblyg. Roedd yr holl ystafelloedd geni yn breifat gan olygu y gallai partneriaid geni neu aelodau eraill o'r teulu fod yn bresennol cyn, yn ystod ac ar ôl yr enedigaeth, yn unol â dymuniadau'r fenyw.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn cytuno bod y staff yn eu cyfarch gan ddefnyddio eu henw dewisol.

Roedd digon o adnoddau yn yr ystafelloedd geni yn yr unedau, gyda phêl eni, mat geni a gwely er mwyn helpu i fodloni dewisiadau geni'r cleifion. Fodd bynnag, nid oedd yr opsiwn i gael genedigaeth mewn dŵr ar gael i bob claf gan nad oedd pwll geni yn Uned Eni y Trallwng. Gallai hyn fod wedi cael effaith andwyol ar nifer y cleifion a oedd yn dewis rhoi genedigaeth yno.

Dywedwyd wrthym fod trafodaethau am yr opsiynau geni'n cael eu cynnal yn ystod yr apwyntiadau cofrestru cychwynnol a thrwy gydol y beichiogrwydd er mwyn helpu cleifion i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Roedd hyn yn amlwg o'r holiaduron a gwblhawyd, gyda'r holl ymatebwyr yn cytuno bod y staff wedi esbonio'r opsiynau geni ac unrhyw risgiau a oedd yn gysylltiedig â'u beichiogrwydd a'r cymorth a gynigiwyd iddynt. Roedd y trafodaethau hyn wedi'u dogfennu'n glir hefyd yn y sampl o gofnodion gofal mamolaeth a welsom.

## Gwrando ar adborth a dysgu ohono

---

<sup>3</sup> Mae uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd yn cynnig amgylchedd cartrefol, sy'n galluogi menywod i roi genedigaeth mewn lleoliad anghlinigol.

Gwelsom daflenni gwybodaeth a phosteri yn yr unedau mewn perthynas â'r weithdrefn gwyno y dylid ei dilyn pe byddai gan fenywod neu eu teuluoedd bryderon yr hoffent eu codi. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael am godi pryderon a chymorth eiriolaeth ar wefan y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gwbl ymwybodol o broses y GIG ar gyfer rheoli pryderon, sef Gweithio i Wella, a sut i ymdrin â chwynion. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gwybod sut i ddelio â chwynion ond nad oeddent fel rheol yn rhoi manylion i gleifion am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC)<sup>4</sup> a allai gynnig gwasanaethau eirioli a chymorth i godi pryder am eu gofal.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Y caiff cyfleusterau pwll geni eu hadolygu yn Ysbyty Coffa y Trallwng er mwyn cynyddu faint o fenywod sy'n rhoi genedigaeth yn yr uned
- Y rhoddir gwybodaeth i gleifion a'u teuluoedd am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC), sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.

---

<sup>4</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod prosesau da ar waith yn yr unedau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod prosesau cadarn ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau, asesu poen a digwyddiadau clinigol, gan sicrhau y caiff gwybodaeth a gwersi eu rhannu ar draws y gwasanaeth.

Gwelsom fod diogelwch cleifion yn cael ei hybu mewn cynlluniau gofal dyddiol ac roedd y cofnodion gofal mamolaeth a welsom yn atgyfnerthu hyn.

Fodd bynnag, gwelsom feysydd i'w gwella mewn perthynas â chadw cofnodion.

Roedd y gwasanaeth yn disgrifio trefniadau clir a chryno o ran gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys darparu hyfforddiant i staff.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr unedau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, eu bod yn lân, a'u bod wedi'u goleuo'n briodol a'u hawyru'n dda. Roedd yr unedau'n drefnus iawn, gyda stoc dda o nwyddau traul meddygol.

O safbwynt yr amgylchedd, gwelsom fod mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau bod babanod yn ddiogel yn yr unedau. Gwelsom fod mynediad i'r unedau

geni wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi y gellid ond eu hagor gyda cherdyn staff neu os oedd aelod o'r staff yn cymeradwyo mynediad.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau yn yr unedau ar gyfer cael gafael ar help a chymorth brys mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf. Gwelsom fod seiniwr brys a chlychau galw ym mhob ystafell er mwyn galw am gymorth ar frys.

Ystyriodd y tîm arolygu y broses ar gyfer gwagio'r pwl geni yn unedau geni Llandrindod, Aberhonddu, Llanidloes a Threfyclo, ac wrth siarad â'r staff gwelwyd bod anghysondebau o ran y prosesau a ddilynwyd. Hefyd, nododd y tîm arolygu nad oedd cyfarpar gwagio, megis cynfasau llithro neu rwydi gwagio ar waith ar hyn o bryd ym mhob un o'r unedau.

Gwelsom hefyd fod anghysondebau o ran cynnal ymarferion larymau argyfwng ym mhob un o'r unedau ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng, megis lle y byddai angen triniaeth dadebru ar faban/claf. Pan brofodd y tîm arolygu y prosesau, gwelwyd amrywiadau o ran y tîm brys yn cyrraedd yr unedau geni, gyda materion megis eu hanallu i fynd i mewn i'r unedau am nad oeddent yn gwybod rhif y bysellfwrdd mynediad a staff yn cyrraedd yr unedau heb y troli dadebru.

Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Dangosodd y cofnodion gofal mamolaeth a welsom a'r sgysiau a gawsom â'r staff fod materion yn cael eu codi'n aml mewn perthynas â chyfathrebu rhwng yr unedau ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Roedd y rhain yn ymwneud â'r broses o raddio galwadau a'r cyngor a roddwyd gan y rhai a oedd yn ymdrin â'r galwadau ar y prosesau uwchgyfeirio priodol y dylai'r bydwragedd eu dilyn. Nododd y bwrdd iechyd fod hyn yn cael effaith andwyol ar amseroedd ymateb i'r unedau cymunedol mewn sefyllfaoedd argyfwng.

### **Atal Cwmpadau**

Gwelsom fod asesiad risg ar waith ar gyfer cleifion a oedd yn cael eu derbyn i'r unedau a'r rhai a oedd yn defnyddio'r pyllau geni. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw achosion o glaf yn cwmpo yn cael eu cofnodi drwy system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd iechyd. Eglurodd y staff y byddai'r system cofnodi digwyddiadau yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu ac y cymerir camau priodol.

### **Atal a rheoli heintiau**

Gwelsom fod ardaloedd clinigol yr unedau geni yn lân ac yn daclus a gwelsom fod Cyfarpar Diogelu Personol ar gael ym mhob ardal ar wahân i'r ystafelloedd geni yn Uned Eni y Trallwng. Dywedodd y staff wrthym fod cyfarpar diogelu



personol ar gael ym mhob pecyn cymorth geni, ond argymhellodd y tîm arolygu y dylid gosod cyfarpar hygyrch ym mhob ystafell glinigol er hwylustod. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur fod yr unedau'n drefnus, yn lân ac yn daclus.

Yn ystod yr arolygiadau, gwelsom bob aelod o'r staff yn cadw at y safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin<sup>5</sup> a gwelsom ddulliau hylendid dwylo da. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo fel sbardun gweledol i bawb. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r unedau.

Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau o safon uchel, ac y byddai unrhyw bryderon a godwyd am atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgyfeirio i uwch-aelodau o'r staff. Gwelsom ganlyniadau archwiliad rheoli heintiau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y bwrdd iechyd. Dangosodd yr archwiliad hwn fod cydymffurfiaeth â gweithdrefnau rheoli heintiau yn uchel ac yr ymdrinnid ag unrhyw waith gofynnol mewn modd amserol. Ym mhob un o'r unedau, roedd ystadegau mamolaeth hefyd yn cael eu harddangos yn glir, gan ddangos arferion gorau, cyfraddau cydymffurfio gwych a chyflawniadau yn y gwasanaeth yn gyffredinol.

Ym mhob un o'r unedau gwelsom fod y cyfarpar yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio a bod amserlenni glanhau cyfredol hefyd ar waith.

Dywedwyd wrthym fod y pyllau geni yn yr unedau perthnasol yn cael eu glanhau bob dydd fel mater o drefn, a bod archwiliad wythnosol o'r dŵr yn cael ei gynnal, a gwelsom dystiolaeth i ategu hynny. Roedd yr archwiliadau hyn yn sicrhau bod y pyllau geni'n cael eu glanhau'n briodol a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Fodd bynnag, teimlai'r tîm arolygu fod angen adolygu'r unedau yn Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes ac Ysbyty Trefyclo er mwyn sicrhau bod gwaith moderneiddio a gwella'n cael ei gwblhau.

---

<sup>5</sup> Yr arfer gorau yw bod y staff sy'n ymwneud â gofal y cleifion yn uniongyrchol yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd nac ewinedd ffug.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Y caiff prosesau uwchgyfeirio ac ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru eu hadolygu er mwyn sicrhau diogelwch cleifion mewn argyfwng
- Y caiff mynediad i gyfarpar diogelu personol yn yr unedau ei adolygu er mwyn sicrhau bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd
- Y caiff y cyfleusterau yn Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes ac Ysbyty Trefyclo eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd.

## Maeth a hydradu

Ar adeg yr arolygiadau, ni welwyd unrhyw fenywod a oedd yn esgor yn yr unedau, ond dywedwyd wrthym fod bwyd a diod poeth ac oer ar gael 24 awr y dydd. Roedd cyfleusterau ar gael i'r staff yn yr unedau wneud bwyd a diodydd i gleifion y tu allan i oriau craidd, gan olygu y gellid diwallu anghenion maeth bob awr o'r dydd a'r nos.

Roedd cyfleusterau prynu diodydd ar gael ym mhob un o'r ysbytai cymunedol pe byddai angen. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddai jygiau dŵr a chyfleusterau te a choffi yn cael eu darparu yn yr ystafelloedd geni.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau yn yr unedau geni a gwelsom fod tymreddau storio'r meddyginiaethau'n cael eu gwirio'n gyson bob diwrnod.

Gwelsom fod cyffuriau'n cael eu storio, eu harchwilio a'u rhoi mewn modd diogel.

Gwelsom hefyd fod polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith a chydabu'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod ble i gael gafael ar y polisi.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg neu'n agored i niwed. Cadarnhaodd pob un o'r aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd hyfforddiant diogelu'n rhan o ddiwrnodau astudio gorfodol y bwrdd iechyd, a dywedwyd wrthym fod y sesiynau yn cynnwys hyfforddiant ac arweiniad ar anffurfio organau cenhedlu menywod (FGM), cam-drin domestig, cam-fanteisio rhywiol a chleisiau ar fabanod, yn ogystal â'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu.

Dywedwyd wrthym fod sesiynau goruchwyllo diogelu ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y staff yn cael eu hannog i drafod materion mewn sesiwn goruchwyllo grŵp. Roedd y fydwraig diogelu arweiniol hefyd ar gael ar gyfer trafodaethau dros y ffôn i roi cymorth ac arweiniad i staff yr uned.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i roi gwybod i'r staff am bryderon diogelu mewn perthynas â derbyn cleifion i'r unedau, er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu mewn modd priodol.

### **Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig**

Gwelsom fod yr archwiliadau o'r cyfarpar dadebru newyddenedigol<sup>6</sup> wedi cael eu cofnodi'n gyson, gan ddangos eu bod wedi cael eu cynnal yn ddyddiol. Gwelsom hefyd fod y cyfarpar dadebru newyddenedigol ym mhob un o'r unedau yn cynnwys stoc ddigonol a phriodol.

Gwelsom hefyd fod archwiliadau o gyfarpar arall, fel peirannau monitro pwysedd gwaed, yn cael eu cynnal mewn modd cyson a rheolaidd.

---

<sup>6</sup> Dyfais i'w chael yn ystod esgor a geni, sy'n cyfuno llwyfan therapi cynhesu effeithiol ynghyd â'r elfennau sydd eu hangen ar gyfer argyfwng clinigol a dadebru.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser neu fel arfer yn hapus ag ansawdd y gofal y gallant ei roi i'w cleifion yn yr unedau geni. Dywedodd y staff wrthym y byddent bob amser yn sicrhau bod y cleifion yn yr unedau geni yn gyfforddus ac yn cael gofal da. Gwelsom hefyd dystiolaeth dda o gynlluniau asesu a thriniaeth yn y cofnodion gofal mamolaeth a welsom. O fewn y sampl hon, gwelsom hefyd fod anghenion clinigol yn cael eu blaenoriaethu a bod hynny'n rhan flaenllaw o waith cynllunio gofal.

Dywedwyd wrthym fod cydgysylltydd bwydo babanod wedi cael ei benodi yn y bwrdd iechyd a dywedodd y staff hefyd y byddent yn teimlo'n hapus i roi cymorth gyda phob dull bwydo pe byddai angen.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Roedd bydwraig ymgynghorol, a oedd yn gyfrifol am arwain gwaith ymchwil ac arloesi clinigol, mewn swydd ac yn cael ei chefnogi gan holl wasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd. Roedd bydwragedd hefyd yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil i gefnogi'r tîm. Roedd y fydwraig ymchwil ac arloesi clinigol hefyd yn ymwneud ag ymchwil a oedd yn gysylltiedig â phrosiectau prifysgol leol i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau a phrofiad cleifion.

Roedd gwella'r ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth yn rhan fawr o waith y tîm. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi gwella ei ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys tudalen Facebook fel ffordd o ymgysylltu â'r cleifion.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Gwelsom fod mesurau cadarn ar waith i storio gwybodaeth cleifion, gan gynnal cyfrinachedd cleifion ac atal mynediad anawdurdodedig yn yr unedau.

Roedd y fewnwyd yn llawn gwybodaeth i'r staff, gydag amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau clinigol yn ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiadau, gwelsom fod nifer ohonynt wedi dyddio a bod angen eu hadolygu.

Gwelsom fod dangosfwrdd mamolaeth chwarterol yn cael ei greu a oedd yn cynnwys gwybodaeth am bob uned eni yn y bwrdd iechyd. Roedd y dangosfwrdd hwn yn darparu gwybodaeth am y gweithgarwch clinigol megis cyfraddau genedigaethau a gweithgarwch atal a rheoli heintiau.

## Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod y cofnodion gofal mamolaeth wedi cael eu cynnal yn dda, gyda dogfennaeth glir a oedd wedi'i chwblhau'n amserol.

Gwnaethom ystyried sampl o'r cofnodion gofal mamolaeth, a oedd yn dangos bod asesiadau risg priodol, gan gynnwys y rhai ar gyfer thrombosis gwythiennau dwfn, wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, mewn un cofnod gofal mamolaeth gwelsom anghysondeb o ran cwblhau'r ffurflen ymholiad rheolaidd. Roedd y cofnodion yn dangos bod poen yn cael ei asesu a'i reoli'n briodol.

Fodd bynnag, roedd atebolrwydd da a llofnodion yn y naw cofnod gofal mamolaeth a welsom.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Y caiff cofnodion cryno eu cadw
- Y caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddarau o fewn amserlenni priodol er mwyn sicrhau cysondeb o ran y gofal.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y staff yn ymdrechu i roi gofal diogel ac effeithiol o ansawdd da i gleifion yn yr unedau.

Nododd y staff fod gwaith tîm amlddisgyblaethol da ar waith, a gwelsom dystiolaeth i gefnogi hyn.

Roedd Arweinwyr Tîm Gweithredol wedi cael eu penodi ar draws y bwrdd iechyd, a gwelsom eu bod yn adnoddau defnyddiol a gwybodus ar gyfer timau'r unedau.

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau arwain a rheoli cefnogol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ynghylch y cymorth roeddent yn ei gael gan yr uwch-aelodau o'r staff.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod lefelau staffio'r gwasanaeth yn cael eu monitro a'u llywodraethu'n dda ar y cyfan, a chawsom sicrwydd bod y gofrestr risgiau fewnol yn cael ei monitro a bod camau'n cael eu cymryd pan fo angen.

Gallem weld bod gweithgareddau clinigol a chanlyniadau cleifion yn cael eu goruchwyllo'n rhagorol. Roedd dangosfwrdd mamolaeth misol yn cael ei gynhyrchu, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y bwrdd iechyd cyfan, ond hefyd am bob uned unigol. Roedd y dangosfwrdd hwn yn rhoi gwybodaeth am weithgarwch clinigol yr unedau, megis categori'r genedigaethau yn ogystal â digwyddiadau a dangosyddion clinigol, megis cwynion ac ymchwiliadau. Roedd graddau coch, melyn neu wyrdd ar gyfer y dangosfwrdd yn dibynnu ar lefel y risg, gan olygu y gellid rheoli blaenoriaethau a risg yn briodol.

Yn ogystal, cadarnhaodd yr uwch-dîm rheoli fod camau gweithredu ac argymhellion o archwiliadau mamolaeth cenedlaethol, fel Mamau a Babanod:

Lleihau'r Risg drwy Ymchwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol (MBRRACE)<sup>7</sup> ac Each Baby Counts,<sup>8</sup> yn cael eu datblygu yn yr uned. Y nod yw gwella gofal a phrofiad cleifion a'r broses o adrodd ar gamau i leihau risg a diogelwch cleifion yn y dyfodol. Mae cyrff archwilio cenedlaethol perthnasol fel MBRRACE yn dilysu'r gwaith hwn yn allanol bob blwyddyn, a gwneir gwaith parhaus i sicrhau bod yr unedau'n cydymffurfio â'r argymhellion a wneir.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau, megis archwiliadau atal heintiau mewnol ar gyfer hylendid dwylo. Gwelsom hefyd dystiolaeth ddiweddar o gydymffurfiaeth ag archwiliadau iechyd a diogelwch ac ymarferion tân.

Roedd y bwrdd iechyd yn dangos proses glir a chadarn ar gyfer rheoli digwyddiadau clinigol. Roedd bydwraig risgiau arweiniol mewn swydd, a oedd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r broses o reoli ymchwiliadau amlddisgyblaethol yn glinigol. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau ac nad oedd camau i fynd i'r afael â'r rhain mewn modd cosbol. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai pob aelod o'r staff yn cael y cyfle i gael amser anghlinigol, gan ei alluogi i adolygu digwyddiadau yn briodol, a oedd yn cael ei ystyried yn arfer da.

Roedd cyfarfod llywodraethu clinigol yn cael ei gynnal bob mis, a oedd hefyd â goruchwyliaeth dros y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Roedd y fydwraig risgiau a llywodraethu arweiniol hefyd yn cyflwyno themâu a thueddiadau yn y cyfarfod hwn, gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw feysydd ymarfer yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar draws y bwrdd iechyd. Ar ôl y cyfarfod, byddai cylchlythyr adborth misol yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu i bob aelod o'r staff, gan grynhoi materion y mis. Gwelsom hefyd fod y cylchlythyr hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn rhoi adborth cadarnhaol i'r staff, ac i dynnu sylw at enghreifftiau o arferion da. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cynhyrchu

---

<sup>7</sup> Mae MBRRACE – Mamau a Babanod: Lleihau'r Risg drwy Archwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol ar waith ledled y DU gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth gadarn i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a babanod diogel, teg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

<sup>8</sup> Each Baby Counts – rhaglen gwella ansawdd genedlaethol Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr i leihau nifer y babanod sy'n marw neu sy'n dioddef anabledd difrifol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod esgor.

a bod gwybodaeth/gwersi yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd er mwyn cefnogi newidiadau i ymarfer a dysgu. Roedd y wybodaeth hon hefyd yn cynnwys safleoedd mamolaeth eraill yn y bwrdd iechyd, gyda'r nod o rannu arferion gorau ac unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn gwella ymarfer a phrosesau.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Yn ystod yr arolygiadau, gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff yn yr unedau a chawsom hefyd 52 o holiaduron staff wedi'u cwblhau, yr oeddem wedi'u dosbarthu. Yn gyffredinol, dywedodd y mwyafrif o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo bod eu huwch-reolwyr yn eu cefnogi'n llwyr a bod y cymorth gan gymheiriaid hefyd yn dda iawn. Nododd y staff fod gweithio amlddisgyblaethol da ar waith yn y gwasanaeth. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn yr holiaduron AGIC a gwblhawyd yn cynnwys:

*“Mae'r rheolwyr yn gefnogol iawn a bob amser yn barod i wrando a helpu. Mae'n mynd yr ail filltir i gefnogi unigolion yn broffesiynol ac yn bersonol yn ogystal â'r tîm yn gyffredinol. Mae'n frain ei chael fel arweinydd band 7 ein tîm”.*

*“Mae ein tîm uwch-reolwyr bob amser yn annog cynhwysiant mewn cyfarfodydd a phenderfyniadau”.*

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y sefydliad yn annog ac yn cefnogi gwaith tîm.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am newidiadau sy'n effeithio ar eu gwaith, a dywedodd hanner y staff fod y broses gyfathrebu'n effeithiol.

Dywedodd y staff wrthym fod rotas bydwagedd yn cael eu rheoli'n dda yn yr unedau y gwnaethom ymweld â nhw.

Gwelsom fod prosesau uwchgyfeirio adrannol ar waith ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod ble i ddod o hyd i'r polisi a sut i uwchgyfeirio materion megis, prinder staff.

Gwelsom dystiolaeth o raglenni sefydlu cadarn ar gyfer y bydwagedd, ac roedd y staff o'r farn bod y rhain o fudd pan oeddent yn dechrau yn eu rôl.

Gwelsom fod proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb staff a chydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol



y bwrdd iechyd, fel hyfforddiant ar iechyd a diogelwch, diogelwch tân, atal a rheoli heintiau, a diogelu, yn cael ei gwblhau ar-lein ac yn cael ei fonitro'n ganolog drwy gofnod staff electronig. Mae'r staff yn cael negeseuon i roi gwybod iddynt pan fydd eu hyfforddiant yn dod i ben er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni terfynau amser.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal tri diwrnod astudio gorfodol sy'n ymwneud â mamolaeth yn ystod y flwyddyn. Un o'r diwrnodau hyn yw'r Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol (PROMPT), sef digwyddiad hyfforddi amlddisgyblaethol a ddefnyddir i annog gwaith amlddisgyblaethol mewn sefyllfaoedd argyfwng.<sup>9</sup> Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn mynychu'r hyfforddiant a'i fod yn ddefnyddiol iawn. Dangoswyd ffigurau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant PROMPT i ni a chawsom sicrwydd bod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn briodol o fewn y terfynau amser cywir.

Roedd gan y bwrdd iechyd fydwraig arweiniol ar gyfer datblygu ymarfer/hwylusydd ymarfer, a rhan o'i rôl oedd monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn. Gallem weld bod adroddiad chwarterol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer yr uwch-aelodau o'r staff bydwreigiaeth er mwyn dangos cydymffurfiaeth â hyfforddiant. Cyfrifoldeb y staff yw trefnu lle i'w hunain ar y diwrnodau hyfforddi perthnasol, a rhoddir gwybod i'r uwch-dimau am bresenoldeb/absenoldeb staff yn yr hyfforddiant.

Mae yna oruchwylydd clinigol i fydwragedd hefyd ar waith yn y bwrdd iechyd. Mae'r rôl hon yn cynnig goruchwyliaeth grŵp a chyfarfodydd un i un, yr ystyriwyd eu bod yn cydymffurfio â dangosyddion perfformiad allweddol y goruchwylydd clinigol i fydwragedd hefyd.<sup>10</sup> Roedd y bwrdd iechyd wedi monitro cydymffurfiaeth â'r targed hwn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac roedd yn parhau i'w monitro'n barhaus.

Dywedwyd wrthym fod pob arfarniad yn gyfredol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd, a gaiff eu cynnal gan eu harweinwyr tîm gweithredol.

---

<sup>9</sup> PROMPT – Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol. Mae'r cwrs hwn yn dysgu'r rhai sy'n ei fynychu sut i ymdrin ag argyfyngau obstetrig.

<sup>10</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/goruchwyliaeth-glinigol-i-fydwragedd-yng-nghymru.pdf>

Roeddent yn eu hystyried yn gyfarfodydd cadarnhaol i'w helpu i nodi cyfleoedd hyfforddi pellach i wella eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwelsom fod yr arweinwyr tîm gweithredol yn rhoi lefel dda o gymorth, a'u bod, yn ôl y staff, yn gwneud ymdrech i fod yn weledol, a'i bod yn hawdd i'r staff yn yr unedau fynd atynt. Dangosodd y wybodaeth a roddwyd i ni yn ystod yr arolygiadau eu bod yn wybodus am eu rôl arbenigol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiadau y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiadau
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiadau lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

### Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Maes:** Canolfannau Geni (Unedau Annibynnol dan Arweiniad Bydwagedd)  
**ym Mhowys**

**Dyddiadau'r Arolygiadau:** 10 - 14 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiadau. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiadau.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Dd/G			

## Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol

### Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Maes:** Canolfannau Geni (Unedau Annibynnol dan Arweiniad Bydwagedd)  
**ym Mhowys**

**Dyddiadau'r Arolygiadau:** 10 - 14 Chwefror 2020

#### Darparu gofal diogel ac effeithiol

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi pryderon yn ymwneud â diogelwch cleifion. O ganlyniad, ni allem fod yn siŵr bod diogelwch cleifion yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r materion a nodir isod.

Ystyriodd y tîm arolygu y broses ar gyfer gwagio'r pwll geni yn unedau geni Llandrindod, Aberhonddu, Llanidloes a Threfyclo, ac wrth siarad â'r staff gwelwyd bod anghysondebau o ran y prosesau a ddilynwyd. Nododd y tîm arolygu hefyd nad oedd cyfarpar gwagio, megis cynfasau llithro neu rwydi gwagio ar waith ar hyn ym mhob un o'r unedau.

Gwelsom fod anghysondebau o ran cynnal ymarferion larymau argyfwng ym mhob un o'r unedau ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng, megis lle y byddai angen triniaeth dadebru ar faban/claf. Pan brofodd y tîm arolygu y broses, gwelwyd amrywiadau o ran y tîm brys yn cyrraedd yr unedau geni, er enghraifft:

- Anallu i fynd i mewn i'r unedau am nad oeddent yn gwybod rhif y bysellfwrdd mynediad

- Staff yn cyrraedd yr unedau heb y troli dadebru.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><b>Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i wneud y canlynol:</b></p> <p>Sicrhau y caiff y broses ar gyfer gwagio'r pwll geni ei hadolygu er mwyn sicrhau diogelwch menywod a'r staff sy'n cynnal y weithdrefn a bod y staff wedi'u hyfforddi'n llawn ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb yn y maes.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>3.1 Gofal Diogel a Clinigol Effeithiol</p>	<p>* Rhoddwyd Polisi Gwagio'r Pwll Geni Dros Dro ar waith er mwyn egluro'r broses ar gyfer Gwagio tra bod cynlluniau hirdymor yn cael eu datblygu</p> <p>* Cynhaliwyd ymarferion sych ar gyfer pob un o'r timau bydwreigiaeth ac arddangosiad byw ar Facebook er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gyfarwydd â'r weithdrefn ddiwygiedig a'r defnydd o atodiadau perthnasol</p> <p>* Proseswyd Ffurflen Archebu Cyfarpar a Dyfeisiau er mwyn prynu slingiau Gwagio'r Pwll Geni a pharau o ganfasau llithro annhafladwy 198cm o hyd a gwastad yn hytrach na thiwb</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth ac Iechyd Rhywiol</p> <p>Goruchwylyd Clinigol Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth ac Iechyd Rhywiol</p>	<p>Cwblhawyd 14 Chwefror 2020</p> <p>Un wythnos 21 Chwefror 2020</p> <p>Cwblhawyd 19 Chwefror 2020</p>

		* Cynllun busnes ar gyfer prynu teclynnau codi o'r to dros gyfnod o ddwy flynedd ar gyfer pob un o'r canolfannau geni, gyda Chanolfan Eni y Trallwng yn flaenoriaeth.	Cymorth Busnes Menywod a Phlant	
<p><b>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</b></p> <p>Bod system briodol ar waith er mwyn sicrhau bod ymarferion larymau argyfwng ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng, megis lle y byddai angen triniaeth dadebru ar faban/claf, yn cael eu cynnal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd a bod staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldeb yn y maes hwn.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>* Amserlen ar gyfer ymarferion clychau galw rheolaidd</p> <p>* Hwyluso ymarferion clychau galw brys mewn ysbytai cymunedol gyda Thimau Bydwreigiaeth Powys a staff perthnasol yr ysbytai cymunedol</p> <p>* Cynnwys Bydwreagedd Powys yn y gwaith o ddatblygu cynllun dadebru safle benodol</p>	<p>Arweinydd Llywodraethu</p> <p>Pennaeth Cynorthwyol Bydwreigiaeth ac Iechyd Rhywiol</p> <p>Y Pwyllgor Dadebru</p>	<p>Cwblhawyd 14 Chwefror 2020</p> <p>Un mis 12 Mawrth 2020</p> <p>30 Mehefin 2020</p>



		<p>* Sicrhau bod pob aelod o'r staff bydwreigiaeth yn cymryd rhan yn yr ymarferion ffug rheolaidd a gynhelir yn eu hysbytai cymunedol</p>	<p>Pennaeth Addysg Glinigol</p>	<p>30 Mehefin 2020</p>
		<p>* Ceisio sicrwydd gan bob un o'r gwasanaethau y caiff ymarferion clychau galw sy'n rhan o'r ymateb i argyfyngau eu cynnal yn effeithiol.</p>	<p>Y Pwyllgor Dadebru</p>	<p>30 Mehefin 2020</p>
		<p>* Cais i'r Pwyllgor Dadebru oruchwylio/adolygu'r ymarferion trawiad ar y galon ffug sydd ar waith ym mhob maes ledled y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys ymateb amlbroffesiynol o feysydd cysylltiedig, er enghraifft wardiau cyffredinol sy'n cefnogi canolfannau geni, meysydd iechyd meddwl, meysydd anabledau dysgu, ac i'r gwrthwyneb.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelwch ac Ansawdd</p>	<p>31 Mawrth 2020</p>

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

**Enw (llythrennau bras): Julie Richards / Wendy Morgan**

**Rôl: Pennaeth Bydwreigiaeth ac Iechyd Rhywiol / Cyfarwyddwr Cynorthwyol**

**Dyddiad: 20 Chwefror 2020**

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

### Maes: Canolfannau Geni (Unedau Annibynnol dan Arweiniad Bydwagedd) ym Mhowys

### Dyddiadau'r Arolygiadau: 10 - 14 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiadau lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y cyfleusterau pwll geni eu hadolygu yn Ysbyty Coffa y Trallwng er mwyn cynyddu faint o fenywod sy'n rhoi genedigaeth yn yr uned.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae'r gwasanaethau mamolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Cyfalaf ac Ystadau a Chynghrair y Cyfeillion er mwyn gosod cyfleusterau pwll geni yn Ysbyty Coffa y Trallwng. Cytunwyd ar gyllid â Chynghrair y	Cymorth Busnes Menywod a Phlant	Mae'r gwaith o osod y pwll wedi cael ei oedi oherwydd COVID-19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cyfeillion ac mae pwll wedi cael ei archebu		Disgwylir i'r gwaith ystadau a gynlluniwyd ddechrau erbyn mis Medi 2020 a chael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion a theuluoedd am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	<p>Mae manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned yn cael eu harddangos ac ar gael ym mhob un o'r ardaloedd clinigol</p> <p>Rhoddir manylion y Cyngor Iechyd Cymuned i gleifion sy'n codi pryderon anffurfiol fel eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau eirioli a chymorth sydd ar gael</p> <p>Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy archwiliadau Amgylcheddol gan Arweinwyr Tîm Gweithredol Band 7</p>	Arweinydd Llywodraethu Menywod a Phlant	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff prosesau uwchgyfeirio ac ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru eu hadolygu er mwyn sicrhau diogelwch cleifion mewn argyfwng.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae'r gwasanaethau mamolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru er mwyn cynnal adolygiad chwarterol o amseroedd trosglwyddo a gasglwyd ers mis Ionawr 2020	Arweinydd Llywodraethu Menywod a Phlant	Mae trefniadau adolygu chwarterol ar waith Adolygiad ym mis Medi 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff mynediad i gyfarpar diogelu personol yn yr unedau ei adolygu er mwyn sicrhau bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Cynhaliwyd adolygiad o ardaloedd y Canolfannau Geni a rhoddwyd sicrwydd bod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael er mwyn sicrhau bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd.	Pennaeth Cynorthwyol Bydwreigiaeth ac Iechyd Rhywiol	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y cyfleusterau yn Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes ac Ysbyty Trefyclo eu hadolygu er mwyn sicrhau	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Mae'r gwasanaethau mamolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Cyfalaf ac Ystadau er mwyn adolygu	Cymorth Busnes Menywod a Phlant	Mae rhaglen waith Trefyclo wedi dechrau a cham 1

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd.	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p> <p>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes ac Ysbyty Trefyclo er mwyn gwella cyfleusterau'r amgylchedd</p> <p>Mae cynlluniau ar gyfer Cam 1 (ailaddurno), 2 (gwella ystafelloedd ymolchi) a 3 (gosod Teclyn Codi o'r Pwll a Gwely Dwbl) wedi'u datblygu ar gyfer Canolfan Eni Trefyclo</p> <p>Datblygu cynllun gwella Canolfan Eni Llanidloes ar ôl cwblhau cynlluniau prosiect y Trallwng a Threfyclo.</p>	<p>Cymorth Busnes Menywod a Phlant</p>	<p>wedi'i gwblhau. Cytunir ar yr amserlen ym mis Gorffennaf â'r Adran Cyfalaf ac Ystadau ar gyfer gwaith Cam 2 a Cham 3 i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2021.</p> <p>I'w gyflwyno i gyfarfod yr Adran Cyfalaf ac Ystadau ym mis Medi 2020.</p>
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cryno yn cael eu cynnal.	3.1 Gofal Diogel a Clinigol Effeithiol	Mae'r Goruchwylydd Clinigol i Fydwragedd yn trafod safonau dogfennaeth mewn sesiwn goruchwylio	Goruchwylydd Clinigol Bydwragedd	Misol

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>grŵp er mwyn sicrhau bod cofnodion cryno yn cael eu cynnal</p> <p>Mae'r Goruchwylydd Clinigol i Fydwragedd hefyd yn darparu sesiynau archwilio cofnodion misol i'r staff, lle y gallant adolygu setiau o nodiadau a dysgu'n uniongyrchol o unrhyw arferion da/gwael a nodir yn ystod y sesiwn. Caiff canlyniadau'r archwiliadau eu cyflwyno yn ystod y sesiynau goruchwyllo grŵp</p>		Misol
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddarau o fewn amserlenni priodol er mwyn sicrhau cysondeb o ran y gofal.</p>	<p>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Mae gan y Grŵp Rheoli Polisïau a Gweithdrefnau Menywod a Phlant gynllun gweithredu sy'n rhestru'r holl bolisïau a chanllawiau a ddatblygwyd, gan gynnwys dyddiadau adolygu.</p> <p>Mae'r fforymau priodol yn y bwrdd iechyd yn cysylltu ag awduron pob polisi/canllaw pan fo angen adolygu'r polisi</p>	<p>Cadeirydd y Grŵp Rheoli Polisïau a Gweithdrefnau Menywod a Phlant</p> <p>Y Grŵp Rheoli Polisïau a</p>	<p>Adolygwyd ym mis Mehefin 2020</p> <p>Misol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Diweddarau'r cylch gorchwyl Rheoli Polisiâu a Gweithdrefnau Menywod a Phlant ar gyfer Arweinwyr y Gwasanaeth o ran datblygu canllawiau i fodloni'r dyddiadau adolygu i orfodi a chefnogi llinellau atebolrwydd</p> <p>Mae'r cyfarfodydd Llywodraethu Menywod a Phlant misol yn monitro cynnydd a pherfformiad yn erbyn y cynllun gweithredu Polisiâu a Gweithdrefnau</p>	<p>Gweithdrefnau Menywod a Phlant</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Menywod a Phlant</p>	<p>Cwblhawyd ym mis Mehefin 2020</p> <p>Misol gydag adolygiad ym mis Hydref 2021</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Julie Jenkins

Teitl swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Iechyd Rhywiol



**Dyddiad: 26 Mehefin 2020**